Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

# **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 665A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, sy'n cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Ann-Marie Harkin, David Thomas, Tracy Veale, Stephen Lisle a Gillian Gillett.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 8 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 9 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 9 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau | 11 |
| Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2014-15 ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn sicrhau ei bod yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16. Bu i ni nodi rhai heriau ariannol y bydd angen rhoi sylw pellach iddynt | 12 |
| Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn parhau i esblygu, ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cryfhau dulliau o reoli risg a rheoli perfformiad | 13 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i wella'r defnydd a wneir o adnoddau drwy fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu a rheoli newid, cryfhau agweddau ar sgrinio maeth, a datblygu strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau | 17 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 22 |
| Risgiau archwilio arwyddocaol | 23 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a'i threfniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hynny a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 8 Rhagfyr. Yna, bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd, a darperir copi ohono i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn yn daer y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd hefyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).
5. Caiff negeseuon allweddol fy ngwaith archwilio eu crynhoi dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Roedd y materion hynny'n ymwneud â dilysrwydd balans gweddilliol o ran credydwyr ar gyfer balansau stoc a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2014 a'r broses o gyfrifo costau cyfreithiol amddiffyniaeth.
7. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ynghylch datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn esbonio'r dyletswyddau ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran y dyletswyddau hynny a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
8. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau canlynol:
   - bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi yn briodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd o bwys;
   - bod amgylchedd yr Ymddiriedolaeth o ran rheolaeth fewnol yn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
   - bod systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli a'u gweithredu yn briodol yn ôl y bwriad.
9. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ddiwedd 2014-15. Ceir rhagor o fanylion gennyf ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei hadnoddau. Mae hynny'n cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, a fu'n archwilio cadernid trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol a digonolrwydd ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys trefniadau i gynllunio'n effeithiol, ac yn mesur cynnydd o ran trefniadau a gwaith llywodraethu'n ymwneud ag ansawdd ers y llynedd. Rwyf hefyd wedi adolygu'r trefniadau i gefnogi defnydd da o adnoddau'n rhan o'r Asesiad Strwythuredig, a gaiff ei lywio gan archwiliad o berfformiad agweddau penodol ar y broses o ddarparu gwasanaethau. Ar sail y gwaith hwn, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

### Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2014-15 ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn sicrhau ei bod yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16. Bu i ni nodi rhai heriau ariannol y bydd angen rhoi sylw pellach iddynt

**11.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o ymdrin â rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn. Parhaodd y pwysau ariannol, ond cafodd cynlluniau arbed eu datblygu'n gynnar a chyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei thargedau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15.

**12.** Mae rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac mae'n debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16. Mae heriau'n parhau, yn enwedig o safbwynt cyllid a phwysau'n ymwneud â galw yn y ganolfan ganser, ac mae rhagor o le ar lefel yr Ymddiriedolaeth i wella'r modd yr ymdrinnir ag arbedion.

### Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn parhau i esblygu, ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cryfhau dulliau o reoli risg a rheoli perfformiad

**13.** Canfu ein gwaith ar gynllunio strategol a gweithredol fod Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth wedi'i ddiweddaru mewn modd cynhwysol o'r gwaelod i fyny a'i fod wedi creu gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dod yn rhan fwy annatod o ffyrdd arferol yr Ymddiriedolaeth o weithio. Fodd bynnag, mae lle o hyd i gryfhau dulliau o gynllunio'r gweithlu, ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi mynd ati'n fwriadol i osod amcanion uchelgeisiol, ni fydd rhai o gamau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflawni mewn pryd.

**14.** Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn darparu sicrwydd a threfniadau craffu cadarn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i wella'r modd y caiff agendâu prysur eu rheoli. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i adolygu trefniadau llywodraethu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a mynd i'r afael â'r gwaith o gynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau annibynnol.

**15.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'r modd y mae'n adnabod ac yn rheoli risgiau. Mae cofrestrau risg yn fwy amlwg ac maent yn cael eu hystyried yn fwy aml gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r camau nesaf yn ymwneud â

sicrhau bod asesiadau risg yn gyson ar lefelau gweithredol, a sicrhau na chaiff amser gwerthfawr pwyllgorau ei ddefnyddio'n trafod mân wallau yn y gofrestr risg.

**16.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ei fframwaith rheoli perfformiad ymhellach. Mae Fframwaith Cyflawni a Monitro'r Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd yn sicrhau bod y Cynllun yn rhan fwy annatod o waith yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, a gwelwyd gwelliannau amlwg yn null yr Ymddiriedolaeth o adrodd ynghylch perfformiad.

### Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i wella'r defnydd a wneir o adnoddau drwy fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu a rheoli newid, cryfhau agweddau ar sgrinio maeth, a datblygu strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau

**17.** Mae fy Asesiad Strwythuredig wedi adolygu'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Bu i ni ystyried agweddau ar reoli newid; datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol; a phartneriaethau ac ymgysylltu. Daethom i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i ymgysylltu ag eraill. Daethom i'r casgliad hefyd bod gan yr Ymddiriedolaeth nifer fach o heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu a bod risgiau'n gysylltiedig â sicrhau newid ar raddfa fawr oherwydd problemau'n ymwneud â chapasiti o ran arweinyddiaeth. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd drwy gyfnod o newid estynedig a dwys, ac er bod rhaglenni newid yn mynd rhagddynt yn dda, mae'r llwyth gwaith ychwanegol sylweddol yn peryglu gwaith cyflawni;
- er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i brofi nifer fach o anawsterau o ran perfformiad yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, mae gan y Strategaeth Datblygu Sefydliadol sydd ar ddod botensial mawr i hybu gwelliant; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid yng nghyswllt ei rhaglenni newid mawr, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd gwella dulliau o weithio mewn partneriaeth â'r staff, o gofio graddau'r newid sefydliadol a gynllunnir.

**18.** Bu fy ngwaith archwilio lleol yn ystyried hefyd pa mor dda yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn rheoli'r ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae'r prif ganfyddiadau adeg ein harchwiliadau lleol wedi'u crynhoi yn y pwyntiau bwled isod:

- Mae dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin ag iechyd a lles y staff wrthi'n datblygu ac mae ar y trywydd cywir. Byddai dull gweithredu strategol cryfach a ategir gan fframwaith gwerthuso cadarn yn helpu'r Ymddiriedolaeth i flaenoriaethu ei chamau gweithredu a manteisio i'r eithaf ar ei chyfleoedd niferus i wella.
- Gwelsom lawer o agweddau da ar waith rheoli meddyginiaethau yn y ganolfan ganser. Fodd bynnag, mae tîm y fferyllfa'n ei chael yn anodd ateb y galw, nid yw'r cyfleusterau yn cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion ac ni cheir strategaeth glir ar gyfer hybu gwelliant.
- Mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch ar gyfartaledd na'i lefel yn y rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG, ac mae ein gwaith diagnostig yn dangos bod adnoddau

TGCh presennol yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol at ei gilydd o ran cefnogi'r modd y caiff gofal iechyd ei ddarparu.

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar sgrinio maeth ac i barhau i leihau lefel y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo a ddarperir ar gyfer y sawl nad ydynt yn gleifion.

**19.** Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**20.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r canfyddiadau allweddol o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd gennyf rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Tachwedd 2015.

**21.** Caiff fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth ei gyflawni er mwyn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; ac
- **c)** fy modloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddi ddefnyddio adnoddau.

**22.** O ran (c) rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, o'r ffynonellau canlynol o dystiolaeth:

- canlyniadau gwaith archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a fu'n archwilio'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, gwaith llywodraethu ac atebolrwydd, a'r modd y caiff adnoddau eu rheoli;
- archwiliadau o berfformiad a gyflawnwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith gan gyrff adolygu allanol eraill, os ydynt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau i; a
- gwaith arall, megis ymarferion paru data'n rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol a gwaith ardystio hawliadau a datganiadau.

**23.** Roedd Cynllun Archwilio 2015 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig, sef £200,829 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r union ffi, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yn cyfateb i'r ffi a nodwyd yn y wybodaeth amlinellol.

**24.** Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hynny. Mae rhestr o'r adroddiadau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

**25.** Caiff canfyddiadau fy ngwaith eu hystyried dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

26. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 a'r modd yr aed i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

27. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15.

28. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei warged neu'i ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

29. Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
   - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
   - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau o bwys – a achoswyd drwy dwyll neu gamgymeriad;
   - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion eraill, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
   - a yw'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn briodol; a
   - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

30. Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol.

31. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae'r archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd amgylchedd yr Ymddiriedolaeth o ran rheolaeth fewnol a'i systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Cafodd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd o bwys

32. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol drafft erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru, sef 1 Mai. Roeddwn o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd i ategu'r datganiadau ariannol yn berthnasol ac yn ddibynadwy, ac roedd y gwelliannau parhaus a wnaed i'r broses o baratoi cyfrifon wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith ategol.

33. Mae'n ofynnol i mi, yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260, adrodd ynghylch materion sy'n deillio o'm gwaith wrth y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu, cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 2 Mehefin 2015. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Balans gweddilliol o ran credydwyr | Nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu darparu rhestr o'r credydwyr neu ddogfennau eraill i gadarnhau balans gweddilliol o £464,000 o ran credydwyr ar gyfer stoc a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2014 o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Felly, nid oedd modd i ni gadarnhau dilysrwydd y rhwymedigaeth hon.<br>Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn bwriadu adolygu pob balans o ran credydwyr sy'n gysylltiedig â'r storfeydd yn ystod 2015-16. |
| Costau cyfreithiol amddiffyniaeth | Ni chafodd y ddarpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol amddiffyniaeth ei chyfrifo'n unol â'r canllawiau a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Penderfynodd rhai byrddau iechyd lleol, y caiff eu balansau eu cyfuno yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth, beidio â dilyn y canllawiau wrth gyfrifo eu darpariaethau eu hunain ar gyfer costau cyfreithiol amddiffyniaeth.<br>Cadarnhaodd archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru a fu'n archwilio'r byrddau iechyd lleol fod y darpariaethau'n seiliedig ar wybodaeth leol a thueddiadau hanesyddol, a bod y modd y cafodd y darpariaethau eu cyfrifo'n rhesymol. |

34. Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, cafodd yr adolygiadau canlynol eu cyflawni gennyf hefyd:

- Datganiad Cyfrifon Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol gwrthbartïon yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2015, a bod y datganiad wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno'n gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

35. Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi'i gwblhau, a chyflwynwyd y materion a oedd yn codi o'r gwaith hwn mewn adroddiad i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 11 Tachwedd 2015. Rwy'n bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol ar gyfer 2014-15.

### Mae amgylchedd yr Ymddiriedolaeth o ran rheolaeth fewnol yn lleihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol

**36.** Cafodd systemau rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth, yr oeddwn o'r farn eu bod yn berthnasol i'r archwiliad, eu hadolygu gennyf er mwyn fy helpu i adnabod ac asesu'r risg o gamddatganiadau o bwys ac ymateb iddi. Ni chafodd y systemau eu hystyried gennyf er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol. Ni thynnodd fy adolygiad sylw at unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn systemau rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth.

### Gwelwyd bod systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli a'u gweithredu yn briodol yn ôl y bwriad

**37.** Ni thynnodd fy ngwaith sylw at unrhyw wendidau arwyddocaol yn systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, cafodd rhai meysydd llai arwyddocaol ar gyfer gwella eu nodi yn ystod yr archwiliad, a chyflwynwyd argymhellion i'r tîm rheoli er mwyn mynd i'r afael â'r rhain a chytunwyd ar gamau gweithredu priodol.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

**38.** Mae'n ofynnol yn statudol i mi fy modloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud ystod o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith dan sylw wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol, gan gynnwys cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad i'r broses o fantoli'r gyllideb;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig; a
- gwneud gwaith penodol ar y defnydd a wneir o adnoddau o ran gwella iechyd a lles y staff, rheoli meddyginiaethau yng Nghanolfan Ganser Felindre, gwasanaethau arlwyo a maeth i gleifion yn yr ysbyty, ac adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh.

**39.** Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith hwn eu crynhoi dan y penawdau canlynol.

## Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn 2014-15 ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn sicrhau ei bod yn debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16. Bu i ni nodi rhai heriau ariannol y bydd angen rhoi sylw pellach iddynt

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol. Parhaodd y pwysau ariannol ond sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth warged bach yn 2014-15

**40.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn o sicrhau rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn, a llwyddodd i gyrraedd ei thargedau ariannol ar gyfer y flwyddyn gan gofnodi gwarged o £39,000.

**41.** Ar gyfer blwyddyn gyntaf Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth, nododd yr Ymddiriedolaeth fwlch o £3.4 miliwn o ran cyllid. Cafodd cynlluniau gwella costau eu nodi er mwyn pennu cyllideb fantoledig ac roedd 70.6 y cant o'r arbedion a gynlluniwyd yn rhai rheolaidd. At ei gilydd, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni 84.4 y cant o'i tharged ar gyfer arbedion yn 2014-15, er bod hynny wedi'i sicrhau wrth i rai cynlluniau orgyflawni ac wrth i eraill dangyflawni.

**42.** Yn ystod 2013-14, llwyddodd Canolfan Ganser Felindre i gyflawni £1.2 miliwn o arbedion achlysurol, a greodd fwlch cychwynnol o ran cyllid ddechrau 2014-15 cyn i'r Ymddiriedolaeth hyd yn oed ystyried y pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn. Oherwydd hynny, roedd canfod arbedion rheolaidd yr oedd modd eu cyflawni'n fwy anodd yn ystod 2014-15. Er bod cynnydd o ran y targedau ar gyfer arbedion wedi'i fonitro yn ofalus drwy'r flwyddyn, roedd Canolfan Ganser Felindre wedi cyflawni 73.2 y cant o'i tharged ar gyfer arbedion, sef £2.149 miliwn, erbyn diwedd 2014-15.

### Mae rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ac mae'n debygol o fantoli'r gyllideb yn 2015-16. Mae heriau'n parhau, yn enwedig o ran cyllid a phwysau'n ymwneud â galw yn y ganolfan ganser, ac mae rhagor o le ar lefel yr Ymddiriedolaeth i wella'r modd yr ymdrinnir ag arbedion

**43.** Mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n adlewyrchu gwaith cynllunio tymor hwy ac amcanion cyflawni sy'n hybu dulliau diogel a chynaliadwy o ddarparu gwasanaethau o safon y mae'r claf yn ganolog iddynt. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun treigl tair blynedd sy'n canolbwyntio ar gynlluniau gwasanaethau, y gweithlu a phenderfyniadau ariannol. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn destun adolygiad gan gymheiriaid, ac mae wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

**44.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun cadarn a chytbwys ar gyfer 2015-16 sy'n cynnwys gofyniad i wneud gwerth £3.636 miliwn o arbedion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei sefyllfa ariannol bob mis mewn modd tryloyw a chyson, ac ni cheir unrhyw dystiolaeth bod penderfyniadau ariannol wedi effeithio ar lefelau neu ansawdd gwasanaethau.

45. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer canfod arbedion posibl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac maent yn destun gwaith craffu a herio. Erbyn y chweched mis, mae 83 y cant o'r arbedion a gynlluniwyd hyd yma wedi'u cyflawni.

46. Erbyn y chweched mis, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i fantoli'r gyllideb yn gyffredinol yn 2015-16. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn rhagweld y bydd yn tanwario yn ystod 2015-16, yn rhannol oherwydd ychydig yn llai o alw am gynnyrch gwaed coch ac yn rhannol oherwydd effeithiau'r rhaglen newid barhaus yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

47. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y ganolfan ganser yn gorwario. Mae'r ganolfan ganser yn wynebu heriau ariannol arwyddocaol sy'n cynnwys cynnydd yn y galw am wasanaethau, lefel o gyllid sylfaenol craidd nad yw wedi newid dros y pedair blynedd diwethaf (er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod bob blwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau ychwanegol penodol) a thrafferthion wrth geisio canfod arbedion. Mae'n annhebygol y bydd y ganolfan ganser yn cyrraedd ei tharged cyfan ar gyfer arbedion, sef £2.6 miliwn, ar gyfer 2015-16.

48. Mae lle i wella ymhellach y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ac yn sicrhau arbedion tymor hwy. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi gofynion o ran arbedion sy'n ymestyn dros fwy na blwyddyn, ond nid oes cynlluniau ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi eto.

49. Mae deiliaid cyllidebau'n ymwneud â datblygu cynlluniau gwella costau, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, er bod disgwyl i hynny newid wrth symud ymlaen.

50. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar leihau dibyniaeth ar arbedion achlysurol, a rhaid iddi sicrhau ei bod yn parhau i fonitro'n ofalus y modd y caiff arbedion a gynlluniwyd eu cyflawni ar lefel is-adrannol. Bydd arbedion achlysurol a gaiff eu dwyn ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol yn parhau i olygu bod angen gwneud mwy o arbedion.

## Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn parhau i esblygu, ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cryfhau dulliau o reoli risg a rheoli perfformiad

51. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynghylch y trefniadau ar gyfer llywodraethu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, a chânt eu cyflwyno dan y themâu canlynol:

- Cynllunio strategol a gweithredol
- Strwythurau a phwyllgorau llywodraethu
- Rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol
- Rheoli perfformiad
- Defnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

**Cynllunio strategol a gweithredol:** Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dod yn rhan fwy annatod o ffyrdd arferol yr Ymddiriedolaeth o weithio. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd ati'n fwriadol i osod amcanion uchelgeisiol er na fydd rhai camau gweithredu'n cael eu cyflawni mewn pryd

**52.** Eleni bu i ni nodi bod proses Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16 i 2017-18 yn parhau i esblygu. Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'i ddiweddaru mewn modd cynhwysol o'r gwaelod i fyny ac roedd wedi creu gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

**53.** Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu, mae gwaith gan yr Ymddiriedolaeth i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod ganddi ddull systematig a strategol o gynllunio'r gweithlu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Bydd hynny'n bwysig yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, wrth i Fframwaith Cynllunio newydd y GIG ar gyfer 2016-17 roi mwy o bwyslais ar gynllunio'r gweithlu.

**54.** Dywedwyd yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2015 na fyddai sawl un o gamau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflawni mewn pryd. Rydym yn canmol uchelgais yr Ymddiriedolaeth o safbwynt cynllunio ar gyfer y tymor canolig, ond mae angen canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod blynyddoedd nesaf y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn realistig o safbwynt yr amcanion y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu gosod ar ei chyfer ei hun o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael.

**Strwythurau a phwyllgorau llywodraethu:** Mae pwyllgorau'n darparu sicrwydd a threfniadau craffu cadarn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud y defnydd gorau o agendâu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i adolygu trefniadau llywodraethu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser a mynd i'r afael â'r gwaith o gynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau annibynnol

**55.** Eleni bu i ni sylwi bod cryfderau yn nhrefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer craffu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn ymddwyn yn gadarnhaol, yn cael trafodaethau agored a didwyll ac yn cynnig lefel briodol o her gan aelodau annibynnol.

**56.** Tynnodd ein gwaith sylw at risgiau'n ymwneud â chynllunio olyniaeth, oherwydd bydd cyfnod dau aelod annibynnol yn dod i ben ym mis Mawrth 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer cylchdroi aelodaeth aelodau annibynnol o bwyllgorau, er mwyn sicrhau bod pob aelod annibynnol yn dod i gysylltiad ag ystod ehangach o faterion a sicrhau eu bod yn gallu craffu ar y materion hynny.

**57.** Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi cytuno ar raglenni gwaith blynyddol. Fodd bynnag, mae rheoli agendâu prysur yn her. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â'r materion hyn, megis adolygu pa mor aml y mae cyfarfodydd rhai pwyllgorau'n cael eu cynnal.

**58.** Mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn gynllun cymhleth iawn i ddylunio a gweithredu model newydd o wasanaethau canser ar gyfer y de-ddwyrain. Cafwyd dadleuon agored mewn cyfarfodydd pwyllgorau ynghylch cymhlethdodau sy'n

ymwneud â threfniadau llywodraethu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, ac roedd disgwyl i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth gynnal adolygiad manwl o'r materion hynny ym mis Tachwedd 2015.

**Rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol:** Mae dulliau rheoli risg yn gwella: mae cofrestrau'n fwy amlwg ac maent yn cael eu hystyried yn fwy aml, ond gall amser gwerthfawr pwyllgorau gael ei ddefnyddio'n trafod mân wallau yn y gofrestr risg

**59.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'r modd y mae'n adnabod ac yn rheoli risgiau. Ceir mwy o bwyslais o lawer ar risg na 18 mis yn ôl, ac mae sgyrsiau mewn pwyllgorau'n canolbwyntio mwy ar gofrestrau risg erbyn hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu strategaeth rheoli risg, sy'n gam cadarnhaol tuag at sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn defnyddio iaith gyffredin mewn perthynas â risg. Mae'r camau nesaf ar gyfer gwella'n ymwneud â gwella cysondeb y modd y caiff risgiau eu hasesu ar lefelau gweithredol, a sicrhau na chaiff amser gwerthfawr cyfarfodydd ei ddefnyddio'n trafod mân wallau yn y gofrestr.

**60.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ynghylch adrodd wrth y cyhoedd ynglŷn â'i threfniadau ar gyfer llywodraethu ac ansawdd. Rhoddodd y tîm archwilio mewnol statws 'sicrwydd sylweddol' i'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, a chafodd adborth ei ddarparu gennym yn ystod y flwyddyn i lywio'r gwaith o ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei gwefan yn rhoi mynediad i bob un o bapurau, agendâu ac adroddiadau diweddaraf y pwyllgorau.

**61.** Yn rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli argymhellion ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm rhaglen o waith archwilio a awdurdodwyd yn genedlaethol ac a gynhaliwyd yn lleol yn ystod 2015. Mae'r gwaith hwn wedi darganfod bod proses weinyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer olrhain y modd y caiff argymhellion archwilio eu gweithredu'n ymddangos yn gadarn ar y cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynyddu lefel ei waith craffu mewn sefyllfaoedd lle na chaiff camau gweithredu eu cwblhau erbyn y terfynau amser gofynnol neu lle gofynnir am ymestyn terfynau amser.

**Rheoli perfformiad:** Gwneir cynnydd da o ran gwella'r fframwaith rheoli perfformiad ymhellach a sicrhau bod cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn rhan fwy annatod o waith yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd

**62.** Rydym wedi nodi bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i wella'r modd y caiff perfformiad ei reoli, yn enwedig o ran goruchwylio'r modd y caiff y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflawni. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwaith anodd a chymhleth wrth ddatblygu Fframwaith Cyflawni a Monitro ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r fframwaith yn ceisio dod â'r Cynllun yn fyw drwy sicrhau bod cysylltiad cryfach rhwng mesur perfformiad o safbwynt cyflawni gweithredol ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

**63.** Rydym wedi sylwi ar newidiadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r dull newydd o adrodd ynghylch perfformiad a fabwysiadwyd yn rhan o'r fframwaith. Bellach, caiff pwyllgorau agweddau penodol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w monitro, sy'n golygu na chaiff y pwyllgorau eu gorlwytho â gwybodaeth sy'n ymdrin â'r Cynllun cyfan. Mae'r adroddiad newydd yn llawer byrrach na'r fersiynau blaenorol, mae'n nodi cysylltiadau clir â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae'n defnyddio dull o adrodd ynghylch eithriadau er mwyn rhoi mwy o sylw i faterion lle mae perfformiad yn is na'r lefelau a ddisgwylir.

**64.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth gylch o adolygiadau is-adrannol chwarterol sy'n golygu bod y Tîm Gweithredol yn cyfarfod ag uwch-dîm rheoli pob is-adran er mwyn craffu ar berfformiad. Mae'r adolygiadau hynny'n heriol ac eto'n gefnogol, ac maent yn fforwm da ar gyfer cael trafodaethau penodol ynghylch y risgiau a'r problemau sy'n effeithio ar bob is-adran. Ceir rhai cyfyngiadau yn y wybodaeth reoli sydd ar gael yn y sefydliad. Mae'r ffaith nad oes modd cael gafael yn hawdd ar ddata System Wybodaeth Rhwydwaith Canser Cymru (CaNISC) yn rhwystr o safbwynt defnyddio data ar gyfer gwella yn y ganolfan ganser, a cheir amheuaeth ynghylch cywirdeb a chyflawnder rhywfaint o'r data sy'n gysylltiedig â chwblhau arfarniadau staff ac amserlenni recriwtio.

**65.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu gwaith i wella ei dangosyddion perfformiad, yn enwedig yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru ac mewn perthynas â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw llawer o'r mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth Gwaed Cymru yn canolbwyntio ar y materion mwyaf perthnasol a phwysig o ran perfformiad. Yn yr un modd, wrth i fframwaith y Cynllun Tymor Canolig Integredig esblygu, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wella'r cysylltiadau rhwng rhai o'r amcanion yn y Cynllun hwnnw a'r mesurau perfformiad cysylltiedig.

**66.** Mae mesurau profiad cleifion yn cael lle amlwg yn yr adroddiad newydd ynghylch perfformiad, a chaiff adroddiadau ynghylch profiad cleifion a rhoddwyr eu darparu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Gall dull yr Ymddiriedolaeth o ddysgu o brofiad cleifion a rhoddwyr gael ei gryfhau ymhellach drwy ehangu dulliau'r Ymddiriedolaeth o gasglu adborth gan bobl.

**Defnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol:** Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll

**67.** Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru dan bwerau statudol a geir yn Rhan 3A Deddf 2014. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn adnodd hynod o effeithiol o safbwynt canfod ac atal twyll a gordaliadau a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.

**68.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan yn y fenter ddata i ymarfer cyfredol y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Hydref 2014. Cafodd y data ei baru a chafodd y canlyniadau eu rhyddhau i'r cyrff sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2015.

**69.** Ers mis Ionawr 2015, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll. Argymhellodd yr ymarfer paru data y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu 324 o barau data, yr oedd pob un ohonynt yn gysylltiedig â data talu credydwyr. Fodd bynnag, ar 6 Tachwedd 2015 nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi agor nac adolygu unrhyw un o'r parau a argymhellwyd.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i wella'r defnydd a wneir o adnoddau drwy fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu a rheoli newid, cryfhau agweddau ar sgrinio maeth, a datblygu strategaeth ar gyfer rheoli meddyginiaethau

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i ymgysylltu ag eraill ond mae ganddi nifer fach o heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu ac mae risgiau'n gysylltiedig â sicrhau newid ar raddfa fawr oherwydd problemau'n ymwneud â chapasiti o ran arweinyddiaeth

**70.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Caiff y canfyddiadau allweddol eu crynhoi yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Rheoli newid | Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd drwy gyfnod o newid estynedig a dwys, ac er bod rhaglenni newid yn mynd rhagddynt yn dda, mae'r llwyth gwaith ychwanegol sylweddol sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni newid yn peryglu gwaith cyflawni:<br>• er gwaethaf y camau i gryfhau capasiti ar lefel cyfarwyddwyr cynorthwyol, mae maint rhaglenni newid yr Ymddiriedolaeth yn golygu bod risgiau'n parhau o hyd o safbwynt capasiti i gyflawni ac arwain; ac<br>• roedd ein Hasesiad Strwythuredig yn argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad risg o ddigonolrwydd capasiti'r uwch-dîm arwain i gyflawni newid ar raddfa fawr. |
| Datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol | Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i brofi nifer fach o anawsterau o ran perfformiad yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, mae gan y Strategaeth Datblygu Sefydliadol sydd ar ddod botensial mawr i hybu gwelliant:<br>• Mae'r gyfradd ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch yn yr Ymddiriedolaeth yn parhau'n uwch na'r targed, mae cyfran y staff y cofnodwyd eu bod wedi cael Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu yn llawer is na'r disgwyl, ac mae trafferthion recriwtio'n achosi cymhlethdodau ar gyfer datblygiadau o ran gwasanaeth a gwaith cyflawni.<br>• Mae gan y Strategaeth Datblygu Sefydliadol sydd ar ddod botensial mawr i hybu gwelliant. Nod y strategaeth yw meithrin diwylliant yn yr Ymddiriedolaeth sy'n croesawu trawsnewid gan barhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel. |
| Partneriaethau ac ymgysylltu | Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid yng nghyswllt ei rhaglenni newid mawr, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd gwella dulliau o weithio mewn partneriaeth â'r staff, o gofio graddau'r newid sefydliadol a gynllunnir:<br>• Mae ymwneud gweddill GIG Cymru â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig o safbwynt materion clinigol. Bydd cynnal y partneriaethau cryf hyn yn bwysig i lwyddiant parhaus y rhaglen, yn enwedig wrth gytuno ar agweddau ariannol y rhaglen.<br>• Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymgysylltu'n helaeth â sefydliadau partner ynghylch Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan. Mae'r broses wedi cynnwys rhaglen ymgysylltu mynych er mwyn datblygu cynllun gwasanaeth, achos busnes a chynllun gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>• Mae cynrychiolaeth dda o'r Tîm Gweithredol yn mynychu'r Fforwm Partneriaeth Lleol, ond nid oes cynrychiolaeth dda o'r staff yn ei fynychu. Os bydd hynny'n parhau, mae'n annhebygol y bydd y fforwm yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ganddo. |

| Mater | Crynodeb o’r canfyddiadau |
| --- | --- |
| | • Mae trefniadau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer ymgysylltu â’r cyhoedd a chynnwys y cyhoedd yn dda. Cafodd safbwyntiau cadarnhaol eu mynegi gan Grŵp Cyswllt Cleifion y ganolfan ganser a’r Cyngor Iechyd Cymuned ynghylch parodrwydd yr Ymddiriedolaeth i wrando ac ymateb i gleifion a rhoddwyr. |

## Mae dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin ag iechyd a lles y staff wrthi’n datblygu ac mae ar y trywydd cywir. Byddai dull gweithredu strategol cryfach a ategir gan fframwaith gwerthuso cadarn yn helpu’r Ymddiriedolaeth i flaenoriaethu ei chamau gweithredu a manteisio i’r eithaf ar ei chyfleoedd niferus i wella

**71.** Roedd prif gasgliadau ein gwaith archwilio lleol ar wella iechyd a lles y staff fel a ganlyn:

- ceir sylfeini cadarn ar gyfer arwain newid, drwy’r Tîm Gweithredol sydd wedi’i adfywio, drwy swydd hwylusydd a ariennir a thrwy gyfrifoldebau newydd i bwyllgorau;
- mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i gael dull gweithredu mwy strategol er mwyn helpu i flaenoriaethu a chydgysylltu ei gweithgarwch;
- mae hyfforddiant rheoli’n wendid cymharol; ceir cyfleoedd i wella iechyd galwedigaethol ymhellach ac mae dulliau newydd o ymgysylltu â staff yn cynnwys agweddau calonogol; ac
- mae’r Ymddiriedolaeth yn barod i ddysgu a cheir rhai enghreifftiau da o ddefnyddio data i wella.

**72.** Daeth ein hadroddiad i law Pwyllgor Datblygu’r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth, ac mae’r Pwyllgor Archwilio yn olrhain y modd y caiff ein hargymhellion eu gweithredu.

## Gwelsom lawer o agweddau da ar waith rheoli meddyginiaethau yn y ganolfan ganser. Fodd bynnag, mae tîm y fferyllfa’n ei chael yn anodd ateb y galw, nid yw’r cyfleusterau yn cydymffurfio’n llwyr â’r gofynion ac ni cheir strategaeth glir ar gyfer hybu gwelliant

**73.** Roedd prif gasgliadau ein gwaith archwilio lleol ar reoli meddyginiaethau yng Nghanolfan Ganser Felindre fel a ganlyn:

- Mae’r fferyllfa yn elwa ar broffil uchel yn yr ysbyty, ond mae lle i ragor o waith ymgysylltu meddygol mewn materion corfforaethol sy’n ymwneud â rheoli meddyginiaethau, ac nid oes strategaeth gadarn ar waith eto i hybu datblygiadau yn y dyfodol.
- Mae’r modd y mae fferyllwyr yn ymwneud â chlinigau’n gadarnhaol, ond mae tîm y fferyllfa’n ei chael yn anodd ateb y galw ac mae mewnbwn y fferyllfa ar y wardiau’n rhy anghyson.

- Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn gyfyng ac nid ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion allweddol. Mae problemau parhaus yn gysylltiedig â storio meddyginiaethau yn y fferyllfa ac ar y wardiau.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth rai prosesau da, sy'n cynnwys defnyddio dulliau rhagnodi electronig, gwaith cysoni amserol a rôl rhagnodwyr anfeddygol. Mae problemau'n gysylltiedig â'r modd y caiff gwybodaeth ei chyfnewid â gofal sylfaenol, archwiliadau o gyffuriau a reolir, a diffyg achosion lle mae cleifion yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain.
- Ni chaiff data ynghylch perfformiad sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau ei ddefnyddio'n ddigon rheolaidd i hybu gwelliant, ac er y ceir agweddau da sy'n ymwneud â dysgu o ddigwyddiadau mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall pam y mae ymyriadau fferyllwyr oherwydd diogelwch yn digwydd yn amlach na'r cyffredin.

**74.** Daeth yr adroddiad i law Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2015, ac mae'r Pwyllgor yn olrhain y modd y caiff ein hargymhellion eu gweithredu.

### Mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch ar gyfartaledd na'i lefel yn y rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG, ac mae ein gwaith diagnostig yn dangos bod adnoddau TGCh presennol Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn effeithiol at ei gilydd o ran cefnogi'r modd y caiff gofal iechyd ei ddarparu

**75.** Roedd prif gasgliadau ein hadolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh fel a ganlyn:

- mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch na'r lefel a argymhellir, ac mae ymhlith yr uchaf yng Nghymru;
- mae lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch na'r lefelau a geir yn y rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru, er bod llawer o'r staff yn ymdrin â Gwasanaeth Gwaed Cymru yn unig, ac ni cheir unrhyw staff rheoli gwybodaeth mewnol;
- at ei gilydd, ceir ymrwymiad cadarnhaol i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth, ac mae barn meddygon ynglŷn â chyfleusterau TG yn well nag yng ngweddill Cymru;
- mae gan yr Ymddiriedolaeth lefel dda o ddyfeisiau TG sydd ar gael i'r staff ac mae mynediad i gyfrifiaduron personol a systemau gwybodaeth glinigol yn dda;
- caiff cyfarpar TGCh yr Ymddiriedolaeth ei reoli'n dda ac mae'r systemau yn ddigon dibynadwy ar y cyfan;
- at ei gilydd, mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer hyfforddi'n ategu cymhwysedd i ddefnyddio'r systemau, ac ansawdd y wybodaeth sydd yn y systemau; ac
- mae meddygon yn defnyddio systemau TGCh clinigol prif ffrwd gymaint ag sy'n bosibl i ddarparu gofal i gleifion, a hynny i raddau mwy o lawer nag mewn nifer o fannau eraill ar draws Cymru.

**76.** Daeth yr adroddiad i law Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2015, ac mae'r Pwyllgor yn olrhain y modd y caiff ein hargymhellion eu gweithredu.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau arlwyo a maeth. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau rhai agweddau ar sgrinio maeth ac i barhau i leihau lefel y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo a ddarperir ar gyfer y sawl nad ydynt yn gleifion

**77.** Roedd prif gasgliadau ein hadolygiad dilynol o wasanaethau arlwyo a maeth i gleifion fel a ganlyn:

- mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion cleifion o ran deiet a maeth yn dda ar y cyfan, er bod lle i gryfhau rhai agweddau ar sgrinio maeth;
- mae ymateb y cleifion ynghylch profiadau amser bwyta'n gadarnhaol, a glynir yn gyffredinol wrth yr egwyddorion sy'n ymwneud â diogelu amseroedd bwyta;
- mae costau gwasanaethau arlwyo i gleifion a lefelau gwastraff bwyd yn cymharu'n ffafriol ag ysbytai eraill, ac mae lefel y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo ar gyfer y sawl nad ydynt yn gleifion yn parhau i ostwng; ac
- mae trefniadau ar waith ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau arlwyo a maeth yr ysbyty ac adrodd yn eu cylch, ond gallent fod yn fwy amlwg.

**78.** Daeth yr adroddiad i law Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2015, ac mae'r Pwyllgor yn olrhain y modd y caiff ein hargymhellion eu gweithredu.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2015 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2015 |
| **Adroddiadau/allbynnau archwilio perfformiad** | |
| Gwella iechyd a lles y staff | Chwefror 2015 |
| Adolygiad dilynol o wasanaethau arlwyo a maeth i gleifion yn yr ysbyty | Hydref 2015 |
| Rheoli meddyginiaethau yng Nghanolfan Ganser Felindre | Tachwedd 2015 |
| Adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh | Tachwedd 2015 |
| Gweminar y Gyfnewidfa Arfer Da ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaeth | Gorffennaf 2015 |
| Adroddiad Asesiad Strwythuredig 2015 | Tachwedd 2015 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2015 | Mai 2015 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015 | Tachwedd 2015 |

Mae un archwiliad o berfformiad yn dal i fynd rhagddo yn yr Ymddiriedolaeth. Caiff yr archwiliad hwnnw ei nodi isod, gan gynnwys y dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau'r gwaith |
|---|---|
| Adolygiad dilynol o gontract meddygon ymgynghorol y GIG | Gwanwyn 2016 |

# Atodiad 2

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hynny ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud systemau rheoli'n bresennol ym mhob man. Gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, felly caiff ei ystyried yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn profi priodolrwydd cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod tuedd; ac<br>• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu hwnt i fusnes arferol. | Bu fy nhîm archwilio'n adolygu ac yn profi'r meysydd hyn yn rhan o'r gwaith archwilio ynglŷn â barn, ac ni nododd unrhyw gamddatganiadau o bwys. |
| Ceir risg y gallai camddatganiad o bwys oherwydd twyll ddigwydd o safbwynt adnabod refeniw, ac felly caiff ei drin fel risg arwyddocaol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn gwneud gwaith i sicrhau bod y refeniw a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn gyflawn ac yn gywir, drwy gynnal adolygiad dadansoddol rhagfynegol lle bo hynny'n briodol. | Bu fy nhîm archwilio'n adolygu ac yn profi'r meysydd hyn yn rhan o'r gwaith archwilio ynglŷn â barn, ac ni nododd unrhyw gamddatganiadau o bwys. |
| Mae angen trefniadau llywodraethu ariannol cryf er mwyn i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei materion ariannol yn unol â'r canllawiau a geir yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal dau sefydliad mawr – Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd angen i Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth gael lefelau boddhaol o sicrwydd gan swyddogion atebol y ddau sefydliad hyn a gynhelir, cyn y gellir llofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ariannol priodol ar waith i fodloni amcanion, cyflawni gwelliannau, cynnal uniondeb ac osgoi gwrthdaro o ran buddiannau. | Bu fy nhîm archwilio'n adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a daeth i'r casgliad ei fod yn cyd-fynd â'n gwybodaeth am yr Ymddiriedolaeth a'n profiad ohoni. |

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi dod yn gyfrifol am dri gwasanaeth yn ystod 2014-15:<br>• Ar 1 Ebrill 2014, cafodd y cyfrifoldeb am reoli cyllideb Cronfa Risg Cymru ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Roedd y gyllideb ar gyfer 2014-15 yn cyfateb i oddeutu £70 miliwn, ac roedd £5 miliwn ychwanegol wrth gefn.<br>• Yn ogystal, cafodd Cyflenwadau Iechyd Cymru ei drosglwyddo i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar 1 Ebrill 2014, sy'n golygu bod gwariant wedi cynyddu oddeutu £40 miliwn yn 2014-15. Roedd y cyfalaf gweithredol net a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn dod i gyfanswm o £3.929 miliwn.<br>• Ers 1 Chwefror 2015, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw'r unig gyflogwr arweiniol ar gyfer cofrestryddion sy'n cael eu hyfforddi i fod yn feddygon teulu yn GIG Cymru. Bydd hynny'n cynhyrchu incwm a gwariant ychwanegol o hyd at £30 miliwn erbyn 2017-18.<br>Gan edrych ymlaen at 2015-16, bydd y Gwasanaeth Cludwyr Iechyd yn cael ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar 1 Ebrill 2015, a fydd yn golygu cynnydd pellach o oddeutu £4.3 miliwn mewn cyllidebau refeniw. | Bydd fy nhîm archwilio yn sicrhau bod y gwariant ychwanegol arwyddocaol a'r incwm cysylltiedig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y datganiadau ariannol a'u bod yn cael eu hategu gan nodiadau datgelu priodol. | Bu fy nhîm archwilio'n adolygu ac yn profi'r meysydd hyn yn rhan o'r gwaith archwilio ynglŷn â barn, ac ni nododd unrhyw gamddatganiadau o bwys. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru